

ISBN 978-1-78964-328-2

ISBN 978-1-78964-457-9



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru

## **DEDDF ADEILADAU CYNALIADWY A DIOGEL 2004 CYNNYDD O RAN CYNALIADWYEDD Y STOC ADEILADAU YNG NGHYMRU**

Rhagfyr 2018

WG36676

ISBN 978-1-78964-328-2

## Cynnwys

	Crynodeb gweithredol	<i>iv</i>
1.	Diben a strwythur yr adroddiad	1
	Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004: Adroddiad cynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	2
2.	Adran 6(2)(a): “Building Regulations made during the period for any of those purposes”	2
3.	Adran 6(2)(b): “Proposals current at the end of the period to make building regulations for any of those purposes”	3
4.	Adran 6(2)(c): “Effects or likely effects of regulations or proposals dealt with in the report under paragraphs (a) and (b)”	3
5.	Adran 6(2)(d): “Proposals considered by the Secretary of State during the period for the setting of targets for any of those purposes in relation to (i) buildings in England and Wales; or (ii) services, fittings or equipment provided on or in connection with such buildings”	6
6.	Adran 6(2)(e): “Overall changes during the period in (i) to (iv)”	9
6(i)	“the efficiency with which energy is used in buildings in Wales”	10
6(ii)	“levels of emissions from such buildings that are emissions considered by the Secretary of State to contribute to climate change”	12
6(iii)	“the extent to which such buildings have their own facilities for generating energy”	13
6(iv)	“the extent to which materials used in constructing, or carrying out works in relation to, such buildings are recycled or re-used materials”	15
7.	Adran 6(3): “An estimate, as at the end of the period, of the number of dwellings in Wales”	16

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1	Sgôr effeithlonrwydd ynni gyfartalog (Tystysgrif Perfformiad Ynni) cartrefi newydd (Cymru)	10
Tabl 2	Canran y cartrefi yn 2014-15 yr oedd eu hatig, eu waliau ceudod neu eu waliau solet wedi'u hinswleiddio (Cymru)	11
Tabl 3	Cartrefi wedi'u hinswleiddio, mis Mawrth 2013 i fis Rhagfyr 2017, cyfansymiau cronol (Prydain Fawr)	11
Tabl 4	Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (Cymru)	12
Tabl 5	Amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau CO2 blynyddol sy'n deillio o eiddo domestig (Cymru)	12
Tabl 6	Amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau CO2 blynyddol sy'n deillio o'r sector diwydiannol, y sector masnachol a'r sector cyhoeddus (Cymru)	13
Tabl 7	Ffynonellau allyriadau carbon deuocsid, 2006-2016 (miliynau o dunelli o CO2) (Cymru)	13
Tabl 8	Nifer y gosodiadau microgynhyrchu dan y cynllun ardystiedig (y DU)	13
Tabl 9	Safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (Cymru)	14
Tabl 10	Nifer a chapasiti'r gosodiadau Tariff Cyflenwi Trydan a gadarnhawyd ar gofrestr ganolog y Tariff Cyflenwi Trydan ar ddiwedd 2016 (Cymru)	15
Tabl 11	Ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer deunyddiau gwastraff sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a dymchwel (Cymru)	15
Tabl 12	Amcangyfrif o'r agregau a gynhyrchwyd yn 2016 (y DU)	16

## Crynodeb gweithredol

### Cyd-destun yr adroddiad

1.1 Mae Adran 6 Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (y Ddeddf) yn mynnu bod yn rhaid llunio adroddiad ynghylch cynaliadwyedd y stoc adeiladau yng Nghymru a'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 2012 a 2016 o ran y canlynol:

- sicrhau bod tanwydd a phŵer yn cael eu harbed ;
- atal dŵr rhag cael ei wastraffu, ei orddefnyddio, ei gamddefnyddio neu ei lygru;
- sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod neu'i wella;
- hybu datblygu cynaliadwy.

1.2 Mae Adran 6 y Ddeddf yn nodi'r meysydd y mae'n rhaid i'r adroddiad ymdrin â nhw, sy'n cynnwys y Rheoliadau Adeiladu a luniwyd yn ystod y cyfnod a'r effaith y disgwylir iddynt ei chael, unrhyw ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth, a'r cynigion ar gyfer gosod targedau mewn perthynas ag adeiladau cynaliadwy. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â newidiadau i'r stoc bresennol o adeiladau o ran effeithlonrwydd ynni a charbon, y graddau y mae gan adeiladau eu cyfleusterau eu hunain ar gyfer cynhyrchu ynni, a'r deunyddiau adeiladu sydd wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio yn ystod y cyfnod; ynghyd ag amcangyfrif o gyfanswm nifer yr anheddau sydd yng Nghymru ar ddiwedd y cyfnod yr adroddir yn ei gylch.

### Newidiadau deddfwriaethol

1.3 Yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef, gwnaed y newidiadau deddfwriaethol canlynol i reoliadau adeiladu a rheoliadau eraill sy'n berthnasol yng nghyswllt cynaliadwyedd. Mae manylion y newidiadau hyn i'w gweld yn adran 4.

### Newidiadau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr:

- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) etc. (Diwygio) 2013 (Offeryn Statudol 2013/10);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ffioedd) 2013 (Offeryn Statudol 2013/603);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 (Offeryn Statudol 2014/880);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Offeryn Statudol 2015/ 609);
- Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 (Offeryn Statudol 2015/962);

- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2015 (Offeryn Statudol 2015/1681);
- Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (Offeryn Statudol 2016/660);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (Offeryn Statudol 2016/284);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 (Offeryn Statudol 2016/888).

### **Newidiadau sy'n berthnasol i Gymru yn unig:**

- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (2013/747);
- Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013 (2013/2621);
- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 (2013/2730);
- Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014 (2014/110);
- Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015 (2015/1486);
- Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016 (2016/361);
- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016 (2016/611);
- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) 2016 (2016/285).

### **Data**

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am newidiadau i gynaliadwyedd adeiladau o ran y canlynol:

- Effeithlonrwydd ynni
- Allyriadau nwyon tŷ gwyrdr
- Cynhyrchu ynni ar y safle
- Ailgylchu ac aildddefnyddio deunyddiau wrth adeiladu
- Nifer yr anheddau

1.5 Darperir hyn yn adran 6 yr adroddiad.

# 1. Diben a strwythur yr adroddiad

## Diben

1.1 Mae Adran 6 Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (y Ddeddf) yn mynnu bod yn rhaid cyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad unwaith bob dwy flynedd ynghylch y cynnydd a wnaed o ran cynaliadwyedd y stoc adeiladau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 2012 a 2016. Mae'n cynnwys y data o'r cyfnod rhwng 2012 a 2014 nas adroddwyd yn ei gylch o'r blaen...

1.2 Mae terfynau'r adroddiad fel y nodir yn adran 6 y Ddeddf fel a ganlyn:

(i) Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol<sup>1</sup>—

(a) am y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau gyda chychwyn yr adran hon, a  
(b) am bob cyfnod o ddwy flynedd ar ôl hynny, baratoi adroddiad ynghylch y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod, yng nghyswllt y dibenion a nodwyd yn adran 1(1)(b) i (e) Deddf Adeiladu 1984 yng nghyd-destun y stoc adeiladau yng Nghymru a Lloegr.

(ii) Rhaid i adroddiad dan yr adran hon ymdrin â'r canlynol —

(a) rheoliadau adeiladu a luniwyd yn ystod y cyfnod at unrhyw rai o'r dibenion hynny;  
(b) cynigion sy'n gyfredol ar ddiwedd y cyfnod i lunio rheoliadau adeiladu at unrhyw un o'r dibenion hynny;  
(c) effeithiau neu effeithiau tebygol rheoliadau neu gynigion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad dan baragraffau (a) a (b);  
(d) cynigion a ystyriwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod ar gyfer gosod targedau at unrhyw un o'r dibenion hynny mewn perthynas ag adeiladau yng Nghymru a Lloegr neu wasanaethau, ffitiadau neu offer a ddarparwyd mewn adeiladau o'r fath neu mewn cysylltiad â nhw.  
(e) newidiadau cyffredinol yn ystod y cyfnod o ran y canlynol —  
(i) defnydd effeithlon o ynni mewn adeiladau yng Nghymru a Lloegr.  
(ii) lefelau'r allyriadau a ddaw o adeiladau o'r fath sydd, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn allyriadau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.  
(iii) y graddau y mae gan adeiladau o'r fath eu cyfleusterau eu hunain ar gyfer cynhyrchu ynni.  
(iv) y graddau y defnyddir deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu neu'u haildefnyddio wrth adeiladu adeiladau neu wrth wneud gwaith mewn perthynas ag adeiladau o'r fath.

Rhaid i adroddiad dan yr adran hon gynnwys amcangyfrif o nifer yr anheddau sydd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd y cyfnod.

Dyma'r dibenion a nodwyd yn adran 1(1)(b) i (e) Deddf Adeiladu 1984:

(b) sicrhau bod tanwydd a phŵer yn cael eu harbed;

---

<sup>1</sup> Roedd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 yn trosglwyddo pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

(c) atal dŵr rhag cael ei wastraffu, ei orddefnyddio, ei gamddefnyddio neu ei lygru;

(d) sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod neu'i wella;

(e) hybu datblygu cynaliadwy.

## Trefn

- 1.3 Mae'r adroddiad wedi'i drefnu yn ôl y paragraffau yn Adran 6 y Ddeddf. Os oes dogfennau neu gyhoeddiadau a gyhoeddwyd ar ôl y cyfnod hwn yn diweddarau polisi neu wybodaeth reoleiddiol sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn, caiff cyfeiriadau priodol eu nodi ynghyd â naratif esboniadol a chyfredol os oes angen.

## **Deddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004: Adroddiad cynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.**

### **2. Adran 6(2)(a): "building regulations made during the period for any of those purposes"**

- 2.1 Gwnaed y newidiadau canlynol i Reoliadau Adeiladu, sy'n berthnasol o safbwynt cynaliadwyedd yng Nghymru, yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef:
- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013 (2013/747);
  - Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 (2013/2730);
  - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013 (2013/2621);
  - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014 (2014/110);
  - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015 (2015/1486);
  - Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016 (2016/361); a
  - Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016 (2016/611).
- 2.2 Yn ogystal, gwnaed y newidiadau canlynol i reoliadau eraill, sy'n berthnasol o safbwynt cynaliadwyedd yng Nghymru a Lloegr, yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef:
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) etc. (Diwygio) 2013 (Offeryn Statudol 2013/10);
  - Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ffioedd) 2013 (Offeryn Statudol 2013/603);
  - Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 (Offeryn Statudol 2014/880);
  - Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Offeryn Statudol 2015/609);
  - Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 (Offeryn Statudol 2015/962);



- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2015 (Offeryn Statudol 2015/1681);
- Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (Offeryn Statudol 2016/660);
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016 (Offeryn Statudol 2016/284);
- Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) 2016 (2016/285); a
- Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 (Offeryn Statudol 2016/888).

2.3 Trafodir yr effeithiau y bwriedir i'r rheoliadau hyn eu cael yn adran 4.

### **3. Adran 6(2)(b): “proposals current at the end of the period to make building regulations for any of those purposes”**

3.1 Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cynaliadwyedd ynghylch ymgorffori elfennau o'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol blaenorol ar Adeiladau Cynaliadwy yn rhan o Reoliadau Adeiladu yng Nghymru. Gellir gweld y ddogfen hon yma: <https://beta.gov.wales/building-regulations-sustainability-review> a gwnaed y newid dilynol i ddeddfwriaeth yn Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2018 (Offeryn Statudol 2018/552).

### **4. Adran 6(2)(c): “effects or likely effects of regulations or proposals dealt with in the report under paragraphs 6(2)(a) and (b)”**

#### **Diwygiadau i reoliadau adeiladu sy'n berthnasol i Gymru**

##### **Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013**

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu gofynion Cyfarwyddeb 2010/31 yr UE ynghylch perfformiad ynni adeiladau (ail-luniwyd); yn cynnwys newidiadau sy'n hwyluso'r Fargen Werdd; yn diweddarar atodlen 3 Rheoliadau Adeiladu 2010 (Rheoliadau 2010) sy'n darparu ar gyfer cynlluniau hunanardystio er mwyn adlewyrchu newidiadau i weithredwyr cynlluniau ac ehangu'r mathau o waith y mae gweithredwyr cynlluniau'n ei wneud, ac yn gwneud nifer o newidiadau i'r system rheoli adeiladu.

##### **Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio Rhif 3) a Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013**

4.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod gofyniad yn Rheoliadau 2010 i osod systemau llethu tân awtomatig. Maent yn pennu'r gofynion ar gyfer systemau o'r fath at ddibenion Rheoliadau 2010 a Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

##### **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**

4.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno Atodlen 3 newydd (cynlluniau hunanardystio ac esemptiadau o'r gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu adneuo cynlluniau llawn) i Reoliadau 2010.

#### **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014**

- 4.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod gofynion newydd ac yn ymestyn y gofynion presennol ynghylch effeithlonrwydd ynni yng nghyswllt adeiladu neu adnewyddu adeiladau neu godi estyniad i adeilad, a darparu gwasanaethau neu ffitiadau a reolir mewn adeilad, neu mewn cysylltiad ag adeilad, fel y nodir yn rheoliadau 2010.

#### **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015**

- 4.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio atodlen 3 Rheoliadau 2010 gan ddarlunio'r sefyllfa a ddymunir o ran cynlluniau awdurdodedig a'r mathau o gynlluniau gwaith y mae gweithredwyr a'u haelodau'n dymuno eu cyflawni. Mae'r Rheoliadau'n awdurdodi gweithredwr cynllun newydd, yn ehangu terfynau gwaith pum gweithredwr cyfredol i fathau o waith trwy ychwanegu eu henwau at y paragraffau priodol a dileu enwau gweithredwyr cynllun o baragraffau lle nad ydynt bellach yn dymuno gweithredu cynllun ar gyfer math penodol o waith. Maent hefyd yn cynnwys diwygiad i brofi hydredded aer.

#### **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016**

- 4.6 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2010 i fewnosod darpariaethau newydd ynghylch cynnig i weithredu gofynion Ewropeaidd ar gyfer ymgorffori band eang yn rhan o seilwaith ffisegol adeiladau.

#### **Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016**

- 4.7 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2010 a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â pherfformiad ynni adeiladau; maent yn dirymu darpariaethau sy'n ymwneud â thystysgrifau perfformiad ynni, sy'n cael eu cydgrynhoi yn rhywle arall, ac yn egluro darpariaethau sy'n ymwneud â gofynion effeithlonrwydd ynni gofynnol. Maent hefyd yn diweddarau'r atodlen o'r personau sy'n gymwys i ardystio bod eu gwaith eu hunain yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu.

#### **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2018**

- 4.8 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2010 gan gyflwyno gofyniad newydd sef pan fo annedd yn cael ei chodi, ni chaniateir i'r defnydd posibl o ddŵr gan bersonau sy'n meddiannu'r annedd fod yn fwy na 110 o litrau y person y dydd (yn hytrach na'r gofyniad blaenorol o 125 o litrau). Maent hefyd yn diwygio'r gofynion o ran effeithlonrwydd dŵr adeiladau newydd ar wahân i anheddau, ac yn gosod gofynion diogelwch ar godi anheddau.

### **Newidiadau eraill i reoliadau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr**

#### **Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) etc. (Diwygio) 2013 (Offeryn Statudol 2013/10)**

- 4.9 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu a Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 (Rheoliadau 2012) gan ei gwneud yn ofynnol i dystysgrifau perfformiad ynni ar eiddo lle ceir cynllun bargaen werdd gynnwys gwybodaeth benodol am y cynllun hwnnw. Maent hefyd yn cyflwyno diwygiadau sy'n sicrhau bod gwybodaeth am y fargaen werdd yn cael ei hychwanegu at y gofrestr Tystysgrifau Perfformiad Ynni, sy'n caniatáu i'r

wybodaeth am y fargen werdd a gaiff ei chadw ar y gofrestr Tystysgrifau Perfformiad Ynni gael ei disodli gan wybodaeth newydd, ac sy'n caniatáu i wybodaeth am gynlluniau'r fargen werdd gael ei datgelu gan geidwad y gofrestr yn unig, mewn amgylchiadau priodol.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ffioedd) 2013 (Offeryn Statudol 2013/603)**

- 4.10 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2012 gan osod ffioedd diwygiedig ar gyfer rhoi dogfennau ar y gofrestr.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 (Offeryn Statudol 2014/880)**

- 4.11 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2012 gan osod ffioedd diwygiedig ar gyfer rhoi dogfennau ar y gofrestr, y darpariaethau gorfodi, a chaniatáu i geidwad y gofrestr ddatgelu dogfennau neu ddata i weithredwr y cynllun achredu y bu i'r aseswr ynni ei ddefnyddio i roi'r dogfennau neu'r data ar y gofrestr.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Offeryn Statudol 2015/609)**

- 4.12 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2012 gan osod ffioedd newydd ar gyfer rhoi data ar y gofrestr, y modd y caiff data ei godi o'r gofrestr, a'r pecynnau data sydd ar gael i dderbynyddion awdurdodedig.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2015 (Offeryn Statudol 2015/1681)**

- 4.13 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r darpariaethau gorfodi a geir yn Rheoliadau 2012.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016**

- 4.14 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau Rheoliadau 2012 o ran Tystysgrifau Perfformiad Ynni, Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos a'r adroddiadau argymhellion sy'n cyd-fynd â'r tystysgrifau hynny, i'r perwyl na ddylai unrhyw rai o'r dogfennau hynny gael eu rhoi ar y gofrestr mewn perthynas ag adeiladau 'a gaiff eu heithrio'. Mae enghreifftiau'n cynnwys carchardai ac adeiladau a gaiff eu defnyddio gan unrhyw rai o'r lluoedd arfog. Roedd y newid mawr arall yn atgyfnerthu Rheoliad 29 yn Rheoliadau 2010, fel rheoliad newydd. Mae'r rheoliad hwn yn mynnu bod personau sy'n gwneud gwaith adeiladu sy'n cynnwys codi adeilad newydd neu addasu adeiladau mewn ffyrdd penodol, yn rhoi tystysgrif ynni i berchennog yr adeilad ac yn hysbysu ei awdurdod lleol ynghylch hynny.

**Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) 2016**

- 4.15 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau technegol i eiriad rhai o'r diffiniadau yn Rheoliadau 2012 o ran y gofynion yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau. Maent yn effeithio ar "adeiladau ynni a eithrir" yng Nghymru.

**Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016**

- 4.16 Roedd y Rheoliadau hyn yn diweddar cyfeiriadau a gafodd eu hesgeuluso mewn diwygiadau blaenorol i Reoliadau 2012 ynghylch datgelu data at ddibenion penodol.

#### **Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015**

- 4.17 Mae Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 (Rheoliadau 2015) yn bodloni dyletswydd yn Neddf Ynni 2011. Maent yn galluogi tenantiaid domestig i ofyn i landlordiaid wneud gwelliannau rhesymol o ran effeithlonrwydd ynni yn yr eiddo. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i eiddo domestig ac annomestig preifat ar rent yng Nghymru a Lloegr fodloni safon ofynnol o ran effeithlonrwydd ynni, sef sgôr sydd ym Mand E ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni, er mwyn cael ei osod.

#### **Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016**

- 4.18 Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno gohiriad bach o ran gweithredu Cofrestr Esemptiadau'r Sector Rhentu Preifat dan Reoliadau 2015.

### **5. Adran 6(2)(d): “proposals considered by the Secretary of State during the period for the setting of targets for any of those purposes in relation to (i) buildings in England and Wales; or (ii) services, fittings or equipment provided on or in connection with such buildings”**

#### **Llywodraeth Cymru**

##### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

- 5.1 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net<sup>2</sup> ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin a nodwyd mewn deddfwriaeth. Caiff hynny ei gyflawni trwy osod targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a chyllidebau carbon bob 5 mlynedd hyd at 2050. Bydd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor ynghylch y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, ac yn adrodd ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau yn y gyllideb.
- 5.2 Mae rhaglen dri cham wedi'i sefydlu i weithredu gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wedi gweld cyfrif allyriadau net Cymru (Cam 1) a thargedau a chyllidebau Cymru (Cam 2), a chaiff yr elfennau hynny eu gosod mewn rheoliadau erbyn diwedd 2018. Ffynhonnell: <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/emissions/?lang=cy>

##### **Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>**

- 5.3 Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel yw'r ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlodi tanwydd gan leihau ar yr un pryd yr allyriadau niweidiol

<sup>2</sup> Diffinnir dan Adran 37 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

<sup>3</sup> <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/sustainable-development-and-climate-change-annual-report-2015/?lang=cy>

sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd domestig drwy fuddsoddi yn ein rhaglen effeithlonrwydd ynni – Cartrefi Clyd – sy'n cynnwys Nyth ac Arbed. Mae'r cynlluniau hyn yn dod â chyllid ychwanegol i Gymru drwy'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Mae'r rhaglen wedi modelu arbediad carbon o 2.48Ktc ac arbedion ynni o 9.5 o oriau gigawatt<sup>4</sup>. Mae'r rhaglen yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i wneud y canlynol:

- lleihau'r newid yn yr hinsawdd,
- helpu i ddileu tlodi tanwydd,
- hybu datblygu economaidd ac adfywio yng Nghymru.

5.4 Mae'r ddau gynllun yn ystyried dull 'cartref cyfan' o ymdrin â gwelliannau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Mae hynny'n helpu i fynd i'r afael â chartrefi y mae'n anos ymdrin â nhw, lle mae effaith tlodi tanwydd yn dueddol o fod ar ei mwyaf difrifol. Mae contractau Nyth ac Arbed Cartrefi Clyd yn nodi y dylid cynnal asesiadau o'r cartref cyfan er mwyn sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n iawn i'r eiddo yn cael eu hadnabod, ac mae'n rhaid i unrhyw osodiadau dilynol gyd-fynd â safon PAS 2030<sup>5</sup> 2017.

5.5 Ers 2012, mae dros £150 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Mae'r gwelliannau hyn wedi lleihau biliau ynni ac wedi helpu aelwydydd i wresogi eu cartref am bris mwy fforddiadwy.

5.6 Yn 2016/17 roedd dros 5,500 o aelwydydd incwm isel wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni drwy gynllun Nyth, gan arbed oddeutu £410 y flwyddyn ar eu bil ynni arferol. Ar ôl cael y pecyn o welliannau ynni cartref, cododd 80% o'r eiddo i sgôr ym Mand B i D a chododd 17% arall i sgôr ym Mand E. Mae'n bosibl y bydd rhai eiddo a gafodd eu gwella yn parhau i gael sgôr ym Mand E i G oherwydd na fu'n bosibl dangos gwerth am arian yng nghyswllt y mesurau ehangach a oedd yn ofynnol.

5.7 Daw hynny â chyfanswm nifer yr aelwydydd sydd wedi elwa o welliannau dan y cynllun i dros 29,000<sup>6</sup> ers i'r cynllun ddechrau yn 2012. Yn ogystal, yn 2017/2018 cafodd dros 13,300 o aelwydydd gyngor a chymorth yn ymwneud ag ynni, gan gynnwys cael eu cyfeirio at wasanaethau trydydd parti megis gwirio hawl i fudd-daliadau er mwyn cynyddu incwm yr aelwyd. Mae hynny'n dod â chyfanswm yr aelwydydd sydd wedi cael cyngor a chymorth yn ymwneud ag ynni i dros 90,000 yn ystod y chwe blynedd ers sefydlu cynllun Nyth. Mae buddsoddiad o £19 miliwn yng nghynllun Arbed yn 2016/2017 wedi gwella 1971 eiddo.

5.8 Rydym yn buddsoddi £104 miliwn arall yng nghynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2017-2021. Bydd hynny'n ein galluogi i wella hyd at 25,000 o gartrefi (bydd Arbed (3) yn cyfrannu 6000 o gartrefi). Bydd ein

<sup>4</sup> <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/sustainable-development-and-climate-change-annual-report-2015/?lang=cy>

<sup>5</sup> Mae PAS 2030 yn egluro'r gofynion y bydd angen i bawb sy'n gosod gwelliannau eu dilyn, er mwyn sicrhau bod y gwaith o osod mesurau effeithlonrwydd ynni dan y Fargen Werdd neu'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni yn cael ei gwblhau'n iawn. Datblygydd PAS 2030 gan y Sefydliad Safonau Prydeinig a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

<sup>6</sup> Adroddiad Blynyddol Nyth 2017/2018

buddsoddiad hefyd yn ysgogi hyd at £24 miliwn o gyllid o'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â chyllid o Rwymedigaeth Cwmni Ynni y DU

(<https://nyth.llyw.cymru/workspace/uploads/files/nyth-adroddiad-blynyddol-201-5abcb2cfa0451.pdf>)

### 5.9 **Canllawiau anstatudol ynghylch Systemau Draenio Cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru**

Ym mis Rhagfyr 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y safonau newydd a argymhellir ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy. Nod y canllawiau interim hyn oedd galluogi dylunwyr, datblygwyr eiddo, awdurdodau lleol a phartion eraill â diddordeb i ddangos eu bod wedi ystyried cyngor cynllunio Llywodraeth Cymru ynghylch Datblygu a Pherygl o Lifogydd a threialu'r safonau ar gyfer dylunio Systemau Draenio Cynaliadwy.

- 5.10 Ers cyhoeddi'r safonau anstatudol, cyhoeddwyd ymgynghoriad o'r enw 'Gweithredu systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd: rheolau drafft a safonau cenedlaethol'. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch yr offerynnau statudol a'r safonau cenedlaethol y mae eu hangen i weithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 o ran defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd.

<https://beta.llyw.cymru/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-ddatblygiadau-newydd-rheolau-drafft-safonau-cenedlaethol>

## **Llywodraeth y DU**

### **Y Fargen Werdd**

- 5.11 Mae'r Fargen Werdd wedi galluogi aelwydydd i gael benthyciadau ('Cynlluniau'r Fargen Werdd') i dalu am fesurau i wella effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi, gan ad-dalu'r benthyciad trwy eu bil ynni. Caiff ad-daliadau eu gwneud ar sail 'talu wrth arbed': ar ôl i'r gwelliannau gael eu gwneud bydd yr aelwyd yn dechrau arbed ynni, bydd eu biliau ynni'n is nag y byddent wedi bod heb y gwelliant, a defnyddir yr arbedion hyn i ad-dalu'r benthyciad. Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddodd y Llywodraeth na fyddai unrhyw arian cyhoeddus arall yn cael ei fuddsoddi yng Nghwmni Cyllid y Fargen Werdd. Gan hynny, roedd nifer y cynlluniau Bargaen Werdd newydd a grëwyd wedi gostwng i lefel isel iawn, gyda 75 o gynlluniau a ariannwyd ag arian preifat wedi'u creu yn y 12 mis cyn mis Tachwedd 2016. Ym mis Ionawr 2017 cafodd asedau busnes Cwmni Cyllid y Fargen Werdd eu prynu gan fuddsoddwyr preifat sydd wedi awgrymu eu bod yn bwriadu ailddechrau benthycia drwy'r fframwaith. Ym mis Tachwedd 2016 roedd 13,759 o gynlluniau naill ai'n weithredol neu wedi bod yn weithredol ar ryw adeg. Ffynhonnell:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/730705/6th\\_Biennial\\_Report\\_Sustainability\\_Building\\_Stock\\_for\\_Web.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/730705/6th_Biennial_Report_Sustainability_Building_Stock_for_Web.pdf)

### **Cyflwyno mesuryddion deallus**

- 5.12 Bydd rhaglen Prydain Fawr i gyflwyno mesuryddion deallus yn sicrhau bod pob cartref a busnes bach yn y wlad yn cael cynnig mesuryddion deallus erbyn diwedd 2020, a gaiff eu gosod yn y modd mwyaf cost-effeithiol posibl. Mae cyflwyno mesuryddion deallus yn rhaglen foderneiddio genedlaethol bwysig a

fydd yn arbed £5.7 biliwn i Brydain Fawr trwy foderneiddio ein system ynni a helpu cwsmeriaid i osgoi gwastraffu ynni ac arian. Bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd y stoc dai yng Nghymru gan y bydd pob aelwyd ddomestig yn cael cynnig sgrîn ynni cartref a fydd yn eu galluogi i weld bron ar unwaith faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio a faint y mae'n ei gostio. Mae'n ofynnol i gyflenwyr ynni ddarparu cyngor ynghylch effeithlonrwydd ynni wrth osod mesuryddion deallus.

- 5.13 Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, mewn partneriaeth ag IPSOS MORI a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, wedi cyhoeddi deunyddiau i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyngor wedi'i deilwra ynghylch effeithlonrwydd ynni i aelwydydd domestig, sy'n cynnwys adnodd sy'n ganllaw i helpu cyflenwyr ynni i ddatblygu eu hyfforddiant a'u harweiniad i'r sawl sy'n gosod y cyfarpar, ynghyd â deg o ffeithlenni sy'n ymdrin ag ystod o gyngor ynghylch ynni y gall y sawl sy'n gosod y cyfarpar ddewis o'u plith i gyd-fynd ag amgylchiadau'r cwsmeriaid. Erbyn diwedd 2016 roedd bron i 5 miliwn o fesuryddion clyfar a datblygedig ar waith mewn cartrefi a busnesau ar draws Prydain. Ffynhonnell: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/730705/6th Biennial Report Sustainability Building Stock for Web.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/730705/6th_Biennial_Report_Sustainability_Building_Stock_for_Web.pdf)

#### **Rhwymedigaeth Cwmni Ynni**

- 5.14 Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni yn rhwymedigaeth statudol ar gyflenwyr ynni i leihau eu hallyriadau carbon. Mae'r rhaglen yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni domestig, megis gwelliannau o ran inswleiddio a gwresogi, i aelwydydd sydd mewn tloidi tanwydd neu mewn ardaloedd incwm isel, neu gartrefi y mae'n arbennig o anodd eu hinswleiddio.
- 5.15 Lanswyd cynllun y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni ym mis Ionawr 2013. Erbyn mis Tachwedd 2016 roedd wedi darparu dros 2 filiwn o fesurau mewn oddeutu 1.6 miliwn eiddo ym Mhrydain Fawr. Yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015 cyhoeddwyd cynlluniau i sicrhau bod rhwymedigaeth cyflenwyr yn para am bum mlynedd o fis Ebrill 2017 ar lefel amcangyfrifedig o £640 miliwn y flwyddyn, gan godi gyda chwyddiant. Caiff cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni diwygiedig ei ymestyn o fis Ebrill 2017 i fis Medi 2018, cyn i gynllun newydd gael ei ddatblygu ar gyfer y tymor hwy. Ffynhonnell: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/730705/6th Biennial Report Sustainability Building Stock for Web.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/730705/6th_Biennial_Report_Sustainability_Building_Stock_for_Web.pdf)

## **6. Adran 6(2)(e): “Overall changes during the period in (i) to (iv)”**

- 6.1 Nid yw'r Ddeddf yn pennu sut i fesur y ffactorau a gaiff eu rhestru yn is-baragraffau (i) i (iv) adran 6(2)(e). Lle bo'n briodol, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys 'ystadegau swyddogol' sydd ar gael yn gyhoeddus yn ffynhonnell ar gyfer mesur newid, ond nid yw'r adroddiad yn gynnyrch ystadegau swyddogol. Defnyddir yr ystadegau a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer cyfnod yr adroddiad, a nodir ffynonellau'r data. Os nad oes ystadegau swyddogol


perthnasol ar gael i fesur newid cyffredinol, mae'r adroddiad yn dibynnu ar ffynonellau data amgen y barnwyd eu bod yn ffynonellau addas i'w diben.

**(i) “the efficiency with which energy is used in buildings in Wales”**

**Eiddo / Anheddau domestig**

- 6.2 Ers mis Ebrill 2008 mae wedi bod yn ofynnol i bob cartref newydd gael Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae'r tystysgrifau hyn yn rhoi sgôr ar gyfer y modd y mae'r cartref yn defnyddio ynni, gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP), sef methodoleg y Llywodraeth ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni ac amgylcheddol anheddau. Diben y weithdrefn yw darparu asesiadau cywir a dibynadwy o berfformiad ynni anheddau, y mae eu hangen er mwyn bod yn sail i bolisiâu'n ymwneud ag ynni a'r amgylchedd.
- 6.3 Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn mesur perfformiad annedd gan roi sgôr effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar gost tanwydd, sef sgôr SAP. Cyfrifir y sgôr hon ar sail costau ynni sy'n gysylltiedig â gwresogi gofod, gwresogi dŵr, awyru a golau gosod llai arbedion yn sgil technolegau cynhyrchu ynni. Caiff sgôr SAP ei mynegi ar raddfa o 1 (aneffeithlon iawn) i 100 (effeithlon iawn), gyda 100 yn golygu nad oes dim cost o gwbl o ran ynni.
- 6.4 Mae angen i eiddo gael Tystysgrif Perfformiad Ynni pan fydd yn cael ei adeiladu, ei werthu neu'i osod. Mae'r Dystysgrif Perfformiad Ynni yn darparu manylion ynghylch perfformiad ynni'r eiddo, a rhoddir sgôr ym Mand A (y mwyaf effeithlon) i fand G (y lleiaf effeithlon).

**Tabl 01: Sgôr effeithlonrwydd ynni gyfartalog (Tystysgrif Perfformiad Ynni) cartrefi newydd (Cymru)**





Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-energy-performance-of-buildings-certificates>

### Mesurau gwresogi ac inswleiddio

- 6.5 Er mwyn sicrhau'r perfformiad ynni gorau posibl, mae'n rhaid bod annedd wedi'i hinswleiddio'n dda o safbwynt thermol a bod ganddi system wresogi effeithlon. Mae'r tablau canlynol yn darparu data ynghylch canran y cartrefi y mae eu hatig, eu waliau ceudod neu eu waliau solet wedi'u hinswleiddio.

**Tabl 02: Canran y cartrefi yn 2014-15 yr oedd eu hatig, eu waliau ceudod neu eu waliau solet wedi'u hinswleiddio (Cymru)**

	Oedd/Oeddent (%)	Nac oedd/Nac oeddent (%)
To wedi'i hinswleiddio / Atig wedi'i hinswleiddio	94	6
Waliau ceudod wedi'u hinswleiddio	74	25
Waliau solet wedi'u hinswleiddio	31	69

Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing>

**Tabl 03: Cartrefi wedi'u hinswleiddio, mis Mawrth 2013 i fis Rhagfyr 2017, cyfansymiau cronol (Prydain Fawr)**

Diwedd:	Waliau ceudod wedi'u hinswleiddio	Atig wedi'i hinswleiddio >=125mm	Waliau solet wedi'u hinswleiddio
<b>Mawrth 2013</b>	12,010*	14,859	541
<b>Mehefin 2013</b>	12,077	14,920	549
<b>Medi 2013</b>	12,157	14,973	557
<b>Rhagfyr 2013</b>	12,261	15,032	572
<b>Mawrth 2014</b>	12,403	15,092	597
<b>Mehefin 2014</b>	12,511	15,170	606
<b>Medi 2014</b>	12,616	15,252	621
<b>Rhagfyr 2014</b>	12,720	15,347	636
<b>Mawrth 2015</b>	12,814	15,424	648
<b>Mehefin 2015</b>	12,893	15,482	662
<b>Medi 2015</b>	12,965	15,531	677
<b>Rhagfyr 2015</b>	13,037	15,582	687
<b>Mawrth 2016</b>	13,102	15,633	696
<b>Mehefin 2016</b>	13,169	15,687	705
<b>Medi 2016</b>	13,231	15,737	713
<b>Rhagfyr 2016</b>	13,293	15,786	718
<b>Mawrth 2017</b>	13,358	15,843	723

<b>Mehafin 2017</b>	13,418	15,889	727
<b>Medi 2017</b>	13,478	15,933	731
<b>Rhagfyr 2017</b>	13,542	15,981	734
Ffynhonnell: <a href="https://www.gov.uk/government/statistics/household-energy-efficiency-national-statistics-headline-release-march-2018">https://www.gov.uk/government/statistics/household-energy-efficiency-national-statistics-headline-release-march-2018</a>			

\*ffigurau mewn miloedd

**Tabl 04: Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (Cymru)**

Blwyddyn	Cyfanswm	Dosbarthiad gweithredol*							Heb gofnodi
		A	B	C	D	E	F	G	
<b>2008</b>	554	3	24	130	193	132	27	45	0
<b>2009</b>	1,347	14	72	339	409	256	88	169	0
<b>2010</b>	1,822	19	79	489	652	277	107	199	0
<b>2011</b>	1,988	25	152	559	681	351	112	100	8
<b>2012</b>	2,119	10	176	649	725	353	119	87	0
<b>2013</b>	2,190	26	185	622	743	362	146	106	0
<b>2014</b>	2,669	36	259	806	909	399	157	103	0
<b>2015</b>	2,036	24	203	675	686	250	78	120	0
<b>2016</b>	1,861	25	210	633	607	258	79	49	0
Ffynhonnell: <a href="https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-energy-performance-of-buildings-certificates">https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-energy-performance-of-buildings-certificates</a>									

\* Mae'r Dosbarthiad Gweithredol yn ddangosydd rhifol o'r allyriadau carbon deuocsid gwirioneddol blyneddol o'r adeilad, a ddangosir ar raddfa o A i G, lle A yw'r isaf (y gorau) a G yw'r uchaf (y gwaethaf).

**(ii) “levels of emissions from such buildings that are emissions considered by the Welsh Ministers to contribute to climate change”**

6.6 Mae'r tablau canlynol yn darparu data ar allyriadau carbon deuocsid a'u ffynonellau. Mae'r data yn nhablau 05 a 06 yn dangos gan bwy y caiff yr ynni ei ddefnyddio yn y pen draw, ac felly mae'n wahanol i'r allyriadau a nodir yn nhabl 07, 'Ffynonellau allyriadau carbon deuocsid, 2006-2016'.

**Tabl 05: Amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau CO2 blyneddol sy'n deillio o eiddo domestig (Cymru)**

2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
7,828*	7,908	7,497	7,659	6,985	7,466	6,460	6,872	6,715	5,643	5,475	5,178
Ffynhonnell: <a href="https://www.gov.uk/government/collections/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics">https://www.gov.uk/government/collections/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics</a>											

\*kt CO2

**Tabl 06: Amcangyfrif o gyfanswm yr allyriadau CO2 blynyddol sy'n deillio o'r sector diwydiannol, y sector masnachol a'r sector cyhoeddus (Cymru)**

2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
10.8*	10.7	10.1	9.9	8.7	9.2	8.2	8.7	8.4	7.7	6.9	6.3

\* (miliynau o dunelli o CO2) Nid yw'r data'n cynnwys allyriadau carbon a gaiff eu hachosi gan safleoedd diwydiannol mawr a llosgi amaethyddol.

**Tabl 07: Ffynonellau allyriadau carbon deuocsid, 2006-2016 (miliynau o dunelli o CO2) (Cymru)**

	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
<b>Busnes</b>	9.9	9.9	9.4	7.7	9.4	8.4	7.3	9.0	8.9	8.7	8.3
<b>Cyflenwad ynni</b>	18.1	15.9	18.8	15.9	16.3	15.5	18.8	20.6	16.8	17.1	19.7
<b>Preswyl</b>	4.5	4.3	4.4	4.2	4.7	3.7	4.0	4.0	3.4	3.5	3.5
<b>Trafnidiaeth</b>	6.7	6.8	6.6	6.3	6.2	6.1	6.0	6.0	6.0	6.1	6.2
<b>Arall</b>	2.7	2.5	2.4	1.2	2.0	1.6	1.3	2.8	2.9	2.5	2.0
<b>Cyfanswm</b>	41.8	39.4	41.5	35.2	38.5	35.3	37.4	42.5	38.1	37.8	39.8

**(iii) “the extent to which such buildings have their own facilities for generating energy”**

6.7 Mae'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu yn ardystio technolegau microgynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu trydan a gwres o ffynonellau adnewyddadwy. Mae'n cyhoeddi ystadegau ynghylch y gosodiadau a gaiff eu cofrestru ar Gronfa Ddata'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu.

**Tabl 08: Nifer y gosodiadau microgynhyrchu dan y cynllun ardystiedig (y DU)**

Blwyddyn/ Technoleg	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
<b>Pympiau gwres o'r aer</b>	325	2,591	4,930	8,450	9,910	8498	9266	7,323
<b>Bio-màs</b>	68	242	745	1,364	2,140	5960	5,628	1,133
<b>Pympiau gwres o aer gwastraff</b>	0	27	166	129	14	91	5	1
<b>Pympiau gwres o'r ddaear</b>	682	1,962	1,945	2,308	1,380	1552	2,196	1,972

<b>Gwres a phŵer cyfunedig micro</b>	0	125	331	116	34	26	18	100
<b>Ynni dŵr micro (wedi dod i ben)</b>	0	18	37	12	1	0	0	0
<b>Ynni gwynt ar raddfa fach</b>	89	588	969	2,189	417	564	136	105
<b>Panelli solar ffotofoltäig</b>	1,216	24,514	205,547	167,937	105,384	140,976	187,528	59,178
<b>Solar Keymark</b>	697	3,363	4,697	4,941	3,114	2,506	1,562	805
<b>Solar thermol</b>	242	642	1,783	1,792	1,601	1,244	871	620
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,319</b>	<b>34,072</b>	<b>221,150</b>	<b>189,238</b>	<b>123,995</b>	<b>161,417</b>	<b>207,210</b>	<b>71,237</b>
Ffynhonnell: <a href="https://www.microgenerationcertification.org/about-us/statistics/">https://www.microgenerationcertification.org/about-us/statistics/</a>								

6.8 Dim ond ar gyfer y DU y mae'r data hwn gan y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu ar gael. Mae Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn cynhyrchu ystadegau ynghylch nifer y safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy, ac mae'r ystadegau hynny ar gael ar lefel Cymru yn unig. Nid yw'r data gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn cynnwys technoleg sy'n cynhyrchu gwres, er enghraifft Pymplau gwres o'r ddaear.

**Tabl 09: Safleoedd sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy (Cymru)**

<b>Blwyddyn</b>	<b>2005</b>	<b>2006</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
<b>Nifer y safleoedd</b>	145	141	246	236	432	1,519	17,209	28,931	34,538	40,762	51,280	53,629
Ffynhonnell: <a href="https://www.gov.uk/government/statistics/regional-renewable-statistics">https://www.gov.uk/government/statistics/regional-renewable-statistics</a>												

6.9 Mae'r data uchod yn cynnwys gosodiadau trydan adnewyddadwy mawr, yn ogystal â gosodiadau llai, gan gynnwys y gosodiadau a gefnogir gan y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan. Mae'r tabl isod yn dangos nifer, math a chapasiti gosodiadau sy'n gysylltiedig â'r Tariff Cyflenwi Trydan yng Nghymru.

**Tabl 10: Nifer a capasiti'r gosodiadau Tariff Cyflenwi Trydan a gadarnhawyd ar gofrestr ganolog y Tariff Cyflenwi Trydan ar ddiwedd 2016 (Cymru)**

Technoleg	Nifer		Capasiti'r gosodiadau	
	Nifer	%	KW	%
Treulio anerobig	10	0	5,315	1.8
Ynni dŵr	150	0.3	6,775	2.3
Gwres a phŵer cyfunedig micro	21	0	25	0
Panelli ffotofoltäig	51,677	98.7	234,102	80.4
Ynni gwynt	512	1	44,812	15.4
<b>Cyfanswm</b>	<b>52,370</b>		<b>291,029</b>	

Ffynhonnell: <https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/feed-tariff-installation-report-31-december-2016>

(iv) “the extent to which materials used in constructing, or carrying out works in relation to, such buildings are recycled or re-used materials”

### Gwastraff yn sgil gwaith adeiladu a dymchwel

6.10 Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw'r strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru. Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gosod targed ar gyfer paratoi i aildefnyddio, ailgylchu ac adfer deunyddiau gwastraff sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a dymchwel, sef o leiaf 70% yn ôl pwysau'r gwastraff, erbyn 2015-16, a 90% erbyn 2019-20. Mae hynny'n cynnwys y targed a osodwyd yn Erthygl 11 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff sef aildefnyddio, ailgylchu ac adfer 70% o ddeunyddiau gwastraff sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a dymchwel erbyn 2020. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd a wnaed o ran cyrraedd y targedau hyn:

**Tabl 11: Aildefnyddio, ailgylchu ac adfer deunyddiau gwastraff sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a dymchwel (Cymru)**

Blwyddyn	Amcangyfrif o ganran y gwastraff a gafodd ei ailgylchu
2005-06	79%
2012	87%

Ffynhonnell: <https://gov.wales/docs/desh/publications/150724-towards-zero-waste-progress-report-en.pdf>

6.11 Mae'r diwydiant yn darparu data ynghylch faint o agregau a gaiff eu cynhyrchu a'u prynu yn y DU. Mae'r tabl yn dangos yr adroddir bod 57 miliwn o dunelli o'r cyfanswm o 259 miliwn o dunelli yn ddeunydd sydd wedi'i ailgylchu neu'i aildefnyddio. At hynny, bellach mae deunyddiau wedi'u hailgylchu yn cyfateb i 28% o'r agregau sy'n cael eu gwerthu ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Ffynhonnell:

[https://mineralproducts.org/documents/mpa\\_facts\\_at\\_a\\_glance\\_2014.pdf](https://mineralproducts.org/documents/mpa_facts_at_a_glance_2014.pdf)

**Tabl 12: Amcangyfrif o'r agregau a gynhyrchwyd yn 2016 (y DU)**

Cyfanswm nifer y cynhyrchwyr (cwmnïau)	Cyfanswm nifer y safleoedd cloddio (Chwareli a phyllau)	Tywod a graean (miliynau o dunelli)	Cerrig mân (miliynau o dunelli)	Agregau o'r môr (miliynau o dunelli)	Agregau wedi'u hailgylchu (miliynau o dunelli)	Agregau wedi'u hailddefnyddio ar y safle (miliynau o dunelli)	Agregau wedi'u gweithgynhyrchu (miliynau o dunelli)	Cyfanswm a gynhyrchwyd (miliynau o dunelli)
648	1389	50	130	12	54	3	12	259
Ffynhonnell: <a href="http://www.uepq.eu/statistics/estimates-of-production-data/data-2016">http://www.uepq.eu/statistics/estimates-of-production-data/data-2016</a>								

## 7. Adran 6(3) “an estimate, as at the end of the period, of the number of dwellings in Wales”

- 7.1 Amcangyfrifwyd bod nifer yr anheddau yng Nghymru yn 1,400,073 yn 2013/2014 ac yn 1,419,371 yn 2016/17, sy'n gynydd o 1.4%. Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates/dwellingstockestimates-by-year-tenure>